








Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner



# Cylchlythyr Gwanwyn 2025 Spring Newsletter 2025



# Gwanwyn 2025

Croeso cynnes i gylchlythyr chwarterol Comisiynydd y Gymraeg. Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen. Mae croeso i chi ei rannu gyda chydweithwyr a chyfeillion.



# Spring 2025

A warm welcome to the Welsh Language Commissioner's quarterly newsletter. We hope you enjoy reading it and feel free to share it with colleagues and friends.



## Cynnig cyngor i sefydliadau

Yn y cyfnod nesaf bydd mwy o sefydliadau yn dod o dan safonau'r Gymraeg gan gynnwys Cymwysterau Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru a chymdeithasau tai. Er mwyn helpu'r sefydliadau a'r sectorau hyn i baratoi fe wnaethon ni gynnal digwyddiad yn ddiweddar er mwyn cynnig cyngor a rhannu arfer da.

Cafwyd cyflwyniadau yn trafod rôl y Comisiynydd a'n dull o gyd-reoleiddio. Bu amryw o sefydliadau hefyd yn sôn am eu profiadau wrth gychwyn ar y broses o gydymffurfio gyda'r safonau. Byddwn yn parhau i gyd-weithio gyda'r sefydliadau hyn dros y misoedd nesaf i'w cynorthwyo a'u cefnogi wrth iddynt baratoi i weithredu safonau'r Gymraeg.

## Advice event for organisations

In the next period more organisations will come under Welsh language standards including Qualifications Wales, the Welsh Revenue Authority and housing associations. To help these organisations and sectors prepare we recently held an event to offer advice and share good practice.

Presentations during the day discussed the role of the Commissioner and our approach to co-regulation. Various organisations also spoke of their experiences as they began the process of complying with the standards. We will continue to work with these organisations over the coming months to assist and support them as they prepare to implement the Welsh language standards.

# Cynllun strategol 2025-2030

Yn ddiweddar buom yn ymgysylltu ar ein cynllun strategol newydd ar gyfer 2025-2030. Y nod yw amlinellu ein blaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf gan nodi pa feysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod hwn. Yn dilyn derbyn yr ymatebion a'u hystyried mae ein cynllun terfynol bellach yn barod.

Diolch i bawb am eu sylwadau. Mae'r cynllun terfynol ar [gael i'w ddarllen ar ein gwefan.](#)

# 2025-2030 Strategic plan

We recently completed an engagement exercise on our new strategic plan for 2025-2030. The aim is to outline our priorities for the next five years and identify the areas that we will focus on during this period. After assessing and considering the responses received, our final plan is now published on our website.

We would like to thank everyone for their comments. [The plan itself can be read on our website.](#)



**Cynllun Strategol  
Comisiynydd y Gymraeg  
2025-30**

  
Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner



## Ymweliadau Efa

Daeth cyfle eto dros y misoedd diwethaf i Gomisiynydd y Gymraeg, Efa Gruffudd Jones, ymweld â siaradwyr a chefnogwyr y Gymraeg ar draws Cymru. Ym Mhafiliwn y Grange yng Nghaerdydd cafodd gyfle i drafod ac ateb cwestiynau criw o bobl ifanc.

Busnes lleol ym Mlaenau Ffestiniog yw Adeiladwaith TJ Construction sydd newydd dderbyn y Cynnig Cymraeg ac roedd yn braf profi eu hangerdd dros y Gymraeg wrth ddatblygu eu gwaith. Mae canolfan alwadau Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ym Mhorthmadog yn cynnig gwasanaeth amhrisiadwy i gwsmeriaid ac roedd yr ymweliad yno yn gyfle i glywed am yr ap Cymraeg sydd bellach â dros 16,000 o ddefnyddwyr, a'u nod yw sicrhau mwy eto.

[Gallwch lawrlwytho yr ap yma](#)



## Efa's visits

The Welsh Language Commissioner, Efa Gruffudd Jones, has again visited Welsh language speakers and supporters from across Wales. At the Grange Pavilion in Cardiff she met and discussed a variety of issues with a group of enthusiastic young people.

Adeiladwaith TJ Construction is a local business in Blaenau Ffestiniog who have just received the Cynnig Cymraeg and it was great to experience their passion for the Welsh language in developing their work. HMRC's call centre in Porthmadog offers an invaluable service to customers and the visit there was an opportunity to hear about the Welsh language app which now has over 16,000 users and aims to increase that number.

[You can download the app here](#)

## Polisi Gorfodi

Dros y misoedd diwethaf cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori ar ein Polisi Gorfodi. Dogfen statudol yw hon sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth ar sut byddwn yn sicrhau bod sefydliadau yn cydymffurfio â'r Safonau.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 29 Ionawr. Hoffem ddiolch i bawb a rannodd sylwadau ac adborth gyda ni. Mae'r adborth sydd wedi ei dderbyn yn ffordd bwysig o'n helpu i siapio'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio ac yn hyrwyddo cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg. Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau wrth ddod i benderfyniad ar ba newidiadau fydd yn cael eu cyflwyno yn y polisi.

## Enforcement policy

We have held a consultation on our Enforcement policy. This is a statutory document that provides advice and information on how we will ensure that organisations comply with the Standards.

The consultation period closed on 29 January. We would like to thank everyone who shared comments and feedback with us. The feedback received is an important way to help us shape the way we regulate and promote compliance with Welsh language standards. We will consider all comments when deciding on what changes will be introduced in the policy.

## Dysgu, Datblygu, Defnyddio

Ar 8 Gorffennaf cynhelir cynhadledd undydd a fydd yn trafod datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Digwyddiad ar y cyd fydd hwn rhwng Comisiynydd y Gymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chaiff ei gynnal yn stadiwm dinas Caerdydd. Bydd yn gyfle i rannu gwybodaeth a phrofiadau am ddulliau o ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a gallwch gael mwy o [wybodaeth a chofrestru ar ein gwefan](#).

## Learn, Develop, Use

On 8 July a conference will be held to discuss the use of Welsh in the workplace. The event will be jointly organised by the Welsh Language Commissioner and the National Centre for Learning Welsh at Cardiff City stadium. It will be an opportunity to share information and experiences on how to increase the use of the Welsh language in the workplace. [More information on the event and how to register can be found on our website.](#)



## Cydweithio i hybu ein blaenoriaethau

Mae ein cynllun strategol newydd wedi adnabod tri maes blaenoriaeth penodol a chafwyd cyfle i dynnu sylw at y rheiny mewn digwyddiadau diweddar. Cynhaliwyd cynhadledd gwaith ieuenctid yng Nghaerdydd lle bu Efa yn annerch y sector ac yn amlinellu pwysigrwydd plant a phobl ifanc a'r cyfraniad sydd ganddyn nhw i'w wneud i'r Gymraeg.

Yng Nghyffordd Llandudno, cynhaliwyd cynhadledd gyntaf Gofal Cymdeithasol Cymru a oedd yn trafod y Gymraeg yn y maes hwnnw. Gydag iechyd a gofal wedi ei adnabod fel un o'r blaenoriaethau yn ein cynllun strategol newydd, bu Efa yn sôn am bwysigrwydd derbyn gofal drwy'r Gymraeg ac am sut y byddwn yn cyd-reoleiddio i sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg yn y maes hollbwysig hwn.

## Working together to highlight our priorities

Our new strategic plan has identified three priority areas, and recent events offered us an opportunity to promote these further. A youth work conference was held in Cardiff where Efa addressed the sector and, in outlining her long-term vision for the Welsh language, emphasised the importance of children and young people, and the contribution they make to the language's future.

In Llandudno Junction, the first Social Care Wales conference was held which discussed the role of the Welsh language in that sector. Efa spoke about the importance of receiving care through the medium of Welsh and how we will co-regulate to ensure an increase in Welsh language provision in this vital area of work.



## Safonau llunio polisi

Yn ddiweddar rydym wedi cynnal llinell ymholi allweddol, sy'n golygu i ni roi sylw manwl i drefniadau sefydliadau i gydymffurfio â gofynion y safonau llunio polisi.

Fe wnaeth 89 sefydliad gymryd rhan gan ymateb i holiadur (71% o'r holl sefydliadau sydd yn dod o dan ofynion y safonau), ac o ganlyniad cyhoeddwyd adroddiad sy'n rhannu ein prif ganfyddiadau, ac yn cynnwys cyfres o argymhellion. Mae'r adroddiad hefyd yn adnabod arferion da, yn ogystal â rhai meysydd sydd angen eu gwella.

[Gallwch weld y prif ganfyddiadau a darllen yr adroddiad yma.](#)

## Policy making standards

We have undertaken a key line of enquiry, which means that we have paid close attention to organisations' arrangements to comply with the requirements of the policy making standards.

89 organisations took part by responding to a questionnaire (71% of all organisations covered by the requirements of the standards), and as a result a report was published which shares our key findings, and includes a series of recommendations. The report also identifies good practice, as well as some areas that need improvement.

[You can see the key findings and read the report here.](#)

## Beth yw sefyllfa'r Gymraeg heddiw?

Bydd y Comisiynydd yn ceisio ateb y cwestiwn hwn dros y flwyddyn sydd i ddod wrth i ni baratoi yr [adroddiad 5-mlynedd](#) nesaf am sefyllfa'r Gymraeg. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 2020 a 2025.

Bydd gofyn hefyd i'r adroddiad ddadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 a bydd y [Dashfwrdd Data](#) ar ein gwefan yn gymorth wrth i ni fynd ati i lunio'r dadansoddiad hwnnw. Ond rydym ni am glywed gennych chi hefyd er mwyn gwneud yn siŵr bod yr adroddiad yn adlewyrchu profiadau go iawn pobl o fyw yn Gymraeg heddiw. Os oes gennych chi stori neu ddarn o waith rydych chi'n awyddus i ni roi sylw iddo yn yr adroddiad cysylltwch â ni drwy [post@cyg-wlc.cymru](mailto:post@cyg-wlc.cymru) neu llenwch yr holiadur hwn.

## What is the position of the Welsh language today?

The Commissioner will seek to answer this question over the coming year as we prepare the next [5-year report](#) on the situation of the Welsh language. This report will focus on the period between 2020 and 2025.

It will also analyse the results of the 2021 Census. The [Data Dashboard](#) on our website will be a great help as we go about compiling that analysis. We also want to hear from you to make sure that the report reflects people's real experiences of using the Welsh language today. If you have a story or piece of work you would like us to highlight in the report please contact us via [post@cyg-wlc.wales](mailto:post@cyg-wlc.wales) or [complete this simple questionnaire](#).

## Ymateb i doriadau prifysgolion

Bu nifer o straeon yn y wasg yn ddiweddar am doriadau yn ein prifysgolion. Fe wnaethom gymryd y cyfle i atgoffa'r sefydliadau hyn o'u dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg, ac yn benodol y safonau llunio polisi sydd yn rhan greiddiol o'u gwaith. Gallwch ddarllen ein [datganiad yn llawn](#) ar ein gwefan.

## Responding to university cuts

There have been numerous stories in the media recently about university cuts. We reminded these organisations of their duties in relation to the Welsh language, and in particular the policy-making standards that is core to their work. You can read our [statement in full](#) on our website.

## Wythnos y Cynnig Cymraeg

Y [Cynnig Cymraeg](#) yw cydnabyddiaeth swyddogol y Comisiynydd gaiff ei roi i sefydliadau sector breifat a chyrrff trydydd sector ac elusennau sydd wedi cydweithio â swyddogion y Comisiynydd i gynllunio darpariaeth Gymraeg.

Caiff wythnos y Cynnig Cymraeg ei chynnal eleni rhwng 12-16 Mai, cyfle i ddathlu y rheiny sydd wedi sicrhau cymeradwyaeth ac annog eraill i fod yn rhan o'r cynllun. Bydd yr wythnos eleni yn gyfle i ddathlu pum mlynedd ers cychwyn y Cynnig Cymraeg, i adlewyrchu ar lwyddiannau'r cynllun ac i groesawu newydd ddyfodiaid i'r cynllun.

Cadwch olwg am straeon yn ystod yr wythnos ac os hoffech drafod y Cynnig Cymraeg ymhellach cysylltwch am sgwrs.

## Cynnig Cymraeg week

The [Cynnig Cymraeg](#) (Welsh Offer) is the official recognition by the Welsh Language Commissioner which is awarded to third and private sector organisations and charities who have worked with the Commissioner's Office to plan and develop their Welsh language provision.


The Cynnig Cymraeg week this year will be held between 12-16 May, an opportunity to celebrate those who have received approval, and to encourage others to get involved. This year will be celebrating five years of the scheme's existence giving us the chance to reflect on the successes of those who have secured approval and to welcome newcomers to the scheme.

Keep an eye out for stories during the week and if you would like to discuss the Cynnig Cymraeg please get in touch.



Am fwy o wybodaeth am ein gwaith cofiwch ymweld â'n gwefan [comisiynyddygybraeg.cymru](http://comisiynyddygybraeg.cymru) neu dilynwch ni ar Facebook, Instagram, LinkedIn ac X ac os am anfon neges atom y cyfeiriad ebost yw [cyfathrebu@cyg-wlc.cymru](mailto:cyfathrebu@cyg-wlc.cymru)

For more information about our work please visit our website: [welshlanguagecommissioner.wales](http://welshlanguagecommissioner.wales) or follow us on Facebook, Instagram, LinkedIn and X and if you want to get in touch e-mail us on: [cyfathrebu@cyg-wlc.wales](mailto:cyfathrebu@cyg-wlc.wales)







Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner